ARGYMHELLION IS BWYLLGOR ADNODDAU
NOS FERCHER
18fed IONAWR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Annwen Daniels- Cadeirydd
Erwyn Jones
Mandy Williams-Davies
Kevin Baldwin
Bedwyr Gwilym
Ronwen D Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Rory Francis
Mari Rees

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Cyfrifon 2017 - 2018**
Argymhelliad: - Derbyniwyd i'r cyfrifon fod yn gywir

2. **Praesept 2017-2018**
Argymhelliad: - Argymell bod angen prynu mwy o oleuadau Nadolig eto eleni er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o oleuadau o safon dda ar gyfer yr ardal i gyd.

Argymell bod angen gwariant ar offer newydd i gae chwarae Manod a neilltuwyd £8000.00 ar gyfer hyn ac i drin y cae fel un a blaenoraeth

Argymell i noddi Gŵyl Cerdd Dant 2018 gyda £1500 i'w neilltuo eleni a £1500 y flwyddyn nesaf. Cytunwyd hefyd i noddi un gystadleuaeth i'r swm o £500.00

Argymell i gynnal Gŵyl Nadolig yn y Parc gan gynnwys llawr sglefrio, stondinau cynnyrch lleol a mân weithgareddau gyda'r ŵyl i gael ei gynnal dros sawl diwrnod a neilltuwyd £10000 ar gyfer hyn.

Argymell i noddi Clwb Rygbi Bro Bach gyda £2000 y flwyddyn am dair blynedd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflogi swyddog i ddysgu'r plant i chwarae rygbi.

Argymell ein bod yn prynu baneri ayb i hybu'r Cyngor cyn diwedd Mawrth.

Bu i'r Is-Bwyllgor wneud argymhellion i godi praesept o £150,000 yn y flwyddyn 2017-2018 sydd yn golygu codiad o 10 ceinig yr wythnos ar Fand D